YSGOL BRYNREFAIL

GWOBR EFYDD DUG CAEREDIN

Mae criw o ddisgyblion blwyddyn 10, ers Medi 2014 , wedi bod yn rhan o weithgareddau amrywiol tu fewn a thu allan yr ystafell ddosbarth, yn ymwneud â'r Wobr Efydd Dug Caeredin.
Mae pedwar cydran i'r wobr: Sgil, Gwirfoddoli, Gweithgaredd Corfforol ac Alldaith.
Mae Kieran Davies, Llion Griffiths,Jordan Jones, Meirion Jones, Llion Roberts, Shaun Roberts a Gwilym Thomas yn gwneud yr ymarfer alldaith drwy ganŵio a gwersylla ar Lyn Tegid canol mis Mai ac yna'r alldaith go iawn yn canŵio lawr Afon Hafren ym mis Mehefin.
Eisoes y mae'r criw wedi cyflawni :
Sgil: Dysgu sgiliau awyr agored amrywiol dan arweiniad Sïon Lloyd a Gwydion Tomos o Wasanaeth Awyr Agored yr URDD

Gwirfoddoli: Ar fin cychwyn y cymal yma drwy wirfoddoli i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol dan arweiniad Simon Rogers (Ceidwad Cymuned Gogledd Eryri)
Gweithgaredd Corfforol: Mynychu sesiwn ffitrwydd yn y Ganolfan Tenis (dan arweiniad gan Dewi Ferrero)
Ynghyd â'r uchod maent wedi cael y profiad o gydweithio gydag Anna Williams (ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru) wrth blannu perllan o goed afalau ym Mhlas Pengwaith, Llanberis 2/3/15.

Er y glaw, er yr oerni, er y glychu, er y deffro dan babell gan fod eraill yn chwyrnu, mae'r criw i'w canmol am eu dyfalbarhad a'u parodrwydd i ymroddi cant y cant i bob sialens a osodwyd o'u blaen. A'r oll cofiwch a gwen ar eu hwyneb !
Wrth gwrs ni fyddai dim o'r hyn yn bosibl heb ymroddiad Mr Sïon O Jones, Pennaeth yr Uned Cynhwysiad gyda'i drefniadau trylwyr a'i frwdfrydedd di ben draw.